

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bupa Dental Care,
Casnewydd/Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 5 Rhagfyr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 6 Mawrth 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?	28
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	30
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	31
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	32
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	33

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bupa Dental Care, Casnewydd yn 6a, Heol Caerffili, Basaleg, Casnewydd, NP10 8LE, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 5 Rhagfyr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Bupa Dental Care, Casnewydd yn gweithio'n galed i gynnig profiad o ansawdd uchel i'w gleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da. Rydym wedi argymhell y dylid cydymffurfio â'r argymhellion a wnaed yn yr asesiad risg tân.

Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn gynhwysfawr ac yn ddarllenadwy ar y cyfan, ond mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer cofnodi cyngor ar ddeiet ac amledd profion pelydr-X.

Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn unol â'r canllawiau angenrheidiol ac roedd yr offer a'r prosesau dihalogi yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Roedd staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Mae angen diweddarau polisïau a gweithdrefnau yn unol â'u dyddiadau adolygu.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd systemau ar waith i gasglu adborth, sylwadau a chwynion gan y cleifion
- Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog neu'n dda iawn
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i'r staff ac roedd cofnodion yn dangos bod staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol.
- Roedd yr amgylchedd yn darparu cyfleusterau clinigol gydag offer digonol a oedd mewn cyflwr da ac a oedd yn edrych yn lân ac yn ddaclus.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella cofnodion cleifion er mwyn dangos tystiolaeth glir o gyngor ar ddeiet ac amledd profion pelydr-X yn unol â chanllawiau cyfredol
- Diweddarau polisïau a gweithdrefnau yn unol â'u dyddiadau adolygu
- Rhaid i'r staff gael arfarniad blynyddol
- Gosod goleuadau i'w defnyddio mewn argyfwng yn unol â'r cyngor yn yr asesiad risg tân

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bupa Dental Care, Casnewydd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Casnewydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys rheolwr practis, tri deintydd, un orthodeintydd, tri hylenydd deintyddol, tair nyrs ddeintyddol ac un aelod o staff sy'n gweithio yn y dderbynfa.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol a chosmetig preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod Bupa Dental Care yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd gwybodaeth berthnasol i gleifion yn cael ei harddangos yn y dderbynfa/ardal aros. Rydym wedi argymhell y dylid arddangos proses gwyno'r GIG yn glir.

Roedd systemau ar waith er mwyn i'r cleifion roi adborth ar y gwasanaeth a gânt a chaiff yr adborth hwn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn nodi themâu gyda'r nod o wneud unrhyw welliannau i wasanaethau.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 19 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Daliwch ati â'r gwaith gwyh"

"Staff y dderbynfa yn barod iawn i helpu. Pawb yn gyfeillgar iawn"

"Mae'r gwasanaeth yn ardderchog, dyma'r practis gorau y bûm iddo erioed ac roedd fy ngŵr yn y fyddin yn y gorffennol felly rwyf wedi bod i sawl un!"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Ar y cyfan, roedd y cleifion yn hapus iawn â'r practis, ond gwnaed y sylwadau canlynol:

"Cardiau apwyntiad wedi'u hargraffu yn hytrach na'u hysgrifennu â llaw – llai o risg y gwneir camgymeriad wrth eu hysgrifennu ac y nodir y manylion anghywir"

"Mae angen mwy o orthodeintyddion gan fod sawl un o'm hapwyntiadau wedi cael eu canslo. Bu'n rhaid aros cryn dipyn o amser cyn cael apwyntiad newydd"

"Trefnu apwyntiadau ar-lein"

"Mwy o seddi yn yr ystafell aros"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa/ardal aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth a ffolder gwybodaeth i gleifion penodol i'r practis, sef ffeil gyfeirio ganolog yn cynnwys gwybodaeth i gleifion¹. Roedd amrywiaeth o daflenni hybu iechyd a hyrwyddo triniaeth gosmetig ar gael hefyd.

Roedd enw'r practis wedi'i osod ar flaen yr adeilad, ac i'w weld yn amlwg o'r brif ffordd. Roedd enwau'r deintyddion wedi'u harddangos wrth ymyl mynedfa'r practis. Roedd angen diweddarau'r arwydd oherwydd newidiadau staff. Gwnaethom awgrymu y dylid ychwanegu rhifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd at yr arwydd, er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Ochr arall y fynedfa, roedd arwydd yn arddangos yr

¹ Roedd y Llyfryn Gwybodaeth i Gleifion yn cynnwys gwybodaeth gan gynnwys manylion y staff, ffioedd deintyddol preifat a'r GIG, nodyn atgoffa am hanes meddygol, hawlio triniaeth am ddim, Gweithio i Wella, diogelu data, polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r llyfryn gwybodaeth i gleifion.

oriau agor, rhif ffôn cyswllt a rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth brys y tu allan i oriau. Roedd y manylion hyn hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth a'r ffolder gwybodaeth i gleifion.

Roedd arwyddion yn dweud 'Dim Smygu' yn y practis, a chadarnhaodd y staff fod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg².

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig ofyn am arwyddion newydd i'r practis er mwyn sicrhau bod enwau'r staff sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd wedi'u rhestru'n glir, gan gynnwys eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael gofal mewn ffordd urddasol a pharchus a chlywsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Roedd y staff yn gallu cael sgysiau preifat â'r cleifion yn y deintyddfeydd i ffwrdd o'r dderbynfa/ardal aros, os oedd angen.

Roedd 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol³ wedi'u harddangos yn yr ardal aros, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod systemau digonol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y wybodaeth am gleifion. Roedd copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael

² Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

³ Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

eu gwneud ac roedd unrhyw ffeiliau papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth. Dywedodd pob un ohonynt hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion hefyd eu bod bob amser wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat i'w gweld yn yr ardal aros ac yn y ffolder gwybodaeth i gleifion.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth i gleifion ei hun a oedd ar gael yn yr ardal aros/ffolder gwybodaeth i gleifion. Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, mae angen diweddarau enw'r rheolwr cofrestredig ac argraffu taflenni brand newydd Bupa.

Roedd y datganiad o ddiben⁴ hefyd yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, ac mae ar gael i'r cleifion ei weld ar gais.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cydsynio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff taflen wybodaeth practis Bupa ei diweddarau er mwyn adlewyrchu enw cywir rheolwr y practis

⁴ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor o wybodaeth ewch i agic.org.uk

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn bodloni gofynion unrhyw glaf a oedd yn dymuno sgwrsio mewn iaith arall heblaw Saesneg. Roedd y practis yn cael cymorth gan sefydliadau i fodloni'r ceisiadau hyn. Roedd y wybodaeth hon wedi'i harddangos yn y ffeil gwybodaeth i gleifion.

Prin oedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y staff wrthym mai nifer fach iawn o siaradwyr Cymraeg a oedd ganddynt, ond pe bai cleifion yn gofyn am wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu mewn iaith arall, y byddent yn ymdrechu i fodloni cais y claf.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig wedi'u ffeilio. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio darparu gofal deintyddol mewn ffordd amserol a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' i gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi'i arddangos ar yr arwydd oriau agor wrth ymyl drws y brif fynedfa. Mae hefyd wedi'i gynnwys yn y daflen a'r ffolder gwybodaeth i gleifion, ac ar y wefan.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom eu bod yn cynnwys cofnod o'r opsiynau a'r cynlluniau triniaeth, a bod y practis yn cael cydsyniad gan bob claf i driniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Roedd hyn yn unol â'r cofnodion cleifion a welsom.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys trefniadau i gael mynediad i'r practis. Roedd un ddeintyddfa a chyfleusterau eraill i gleifion wedi'u lleoli ar lawr gwaelod y practis. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal yn y ddeintyddfa briodol pe bai gan glaf gymorth symudedd a/neu gadair gwthio.

Roedd arwyddion clir ar gyfer toiled y cleifion. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo yn y toiled. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ganllawiau i roi cymorth os oedd ei angen.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cwynion. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i fynegi pryder wedi'i harddangos i gleifion yn yr ardal aros ac yn y daflen wybodaeth a'r ffolder gwybodaeth i gleifion. Adeg ein hymweliad, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos am broses gwyno'r GIG, Gweithio i Wella⁵. Gwnaethom argymhell y dylid cael gafael ar y wybodaeth hon a'i harddangos yn glir.

Gwelsom ei bod hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth am gwynion gan fod Bupa yn defnyddio'r term Cod Ymddygiad. Nid yw'r iaith hon yn hawdd ei deall ar gyfer proses gwyno. Er i ni gael eglurhad am y rheswm dros ddefnyddio'r term hwn, byddem yn awgrymu bod angen i'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â

⁵ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

chleifion fod yn hawdd ei deall ac y dylid ei hadlewyrchu'n glir yn yr holl lenyddiaeth gorfforaethol.

Gwelsom fod gan y practis systemau addas ar waith i gofnodi unrhyw bryderon/cwynion a wnaed, ac ymateb iddynt a'u monitro. Caiff y wybodaeth hon ei hadolygu'n rheolaidd ar lefel y practis ac ar lefel y brif swyddfa. O ganlyniad, gellir nodi unrhyw themâu gyda'r nod o wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Roedd proses ar waith gan y practis ar gyfer cael adborth gan gleifion am y gwasanaethau a'r gofal a gafwyd drwy holiaduron i gleifion. Roedd holiaduron papur ar ddesg y dderbynfa. Ar adeg ein hymweliad, roedd yn rhaid rhoi unrhyw holiaduron papur wedi'u cwblhau i'r staff. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gael gafael ar flwch er mwyn gallu cyflwyno ymatebion yn ddienw.

Gallai'r cleifion hefyd gwblhau ffurflenni adborth ar-lein. Caiff pob dull o gasglu adborth gan y cleifion ei adolygu'n rheolaidd, a chaiff y canlyniadau eu harddangos yn yr ardal aros ac ar y wefan.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gael gafael ar flwch er mwyn gallu cyflwyno holiaduron/adborth gan gleifion yn ddienw.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd a chyfleusterau glân a thaclus i'r staff ac ymwelwyr. Roedd contractau ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Rydym wedi argymhell y dylid gosod goleuadau i'w defnyddio mewn argyfwng yn y practis yn unol â'r argymhelliad o'r asesiad risg tân diwethaf. Mae angen arddangos protocol argyfwng yn glir yn y practis, er mwyn sicrhau y byddai'r staff a'r cleifion yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn dda ac yn cynnwys nodiadau clir a dealladwy. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Yn benodol, rydym wedi gofyn i'r practis ystyried cofnodi cyngor ar ddeiet ac amledd profion pelydr-X yn unol â chanllawiau cyfredol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd y practis mewn adeilad deulawr, ac roedd ardaloedd y staff a'r cleifion wedi'u lleoli ar y ddau lawr. Nid oedd unrhyw gyfyngiadau o ran cael mynediad i'r adeilad, ac felly byddai unrhyw un sy'n defnyddio cymorth symudedd/cadair wthio yn gallu cael mynediad i'r adeilad.

Roedd y dderbynfa, yr ardal aros, toiledau'r cleifion ac un ddeintyddfa ar y llawr gwaelod. Roedd dwy ddeintyddfa ar y llawr cyntaf. Roedd y deintyddfeydd yn fodern eu golwg ac yn cynnwys cyfarpar da.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Roedd pob ardal yn y practis yn ymddangos yn lân ac yn rhydd o beryglon baglu.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amryw leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw'n cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Roedd un aelod o'r staff yn bennaeth tân dynodedig ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân. Cynhaliwyd driliau tân ac roedd cofnod yn cael ei gadw fel tystiolaeth ohonynt. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng, ac roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn y practis. Yn dilyn yr asesiad risg tân diwethaf, argymhellwyd y dylai'r practis osod goleuadau i'w defnyddio mewn argyfwng. Gwnaethom argymhell y dylid ystyried y cam gweithredu hwn.

Roedd amryw bolisiau a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag asesiadau risg, a oedd yn gyfredol ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas at y diben.

Roedd polisi dadebru ar waith yn y practis, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddadebru cardio-anadlol/dadebru brys. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig. Roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶.

⁶ Nod y Cyngor Dadebru (y DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu argymhellion yr asesiad risg tân diwethaf a gwneud trefniadau i osod goleuadau i'w defnyddio mewn argyfwng yn y practis.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁷. Roedd yr ystafell yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

Gwelsom dystiolaeth bod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar reoli heintiau, yn unol â'r gofynion pum mlynedd a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith i waredu gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus.

⁷ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau priodol â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog a/neu frechiadau. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu'r ystafell ddihalogi yn unol â chanllawiau WHTM 01-05 mewn perthynas ag awyru er mwyn sicrhau bod yr ystafell yn cydymffurfio ag arferion gorau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion); roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Ar adeg ein hymweliad, roedd y polisi ar gyfer ymdrin ag argyfyngau meddygol/achosion o ddadebru ar gael ar-lein. Gwnaethom awgrymu y dylid argraffu copi o'r polisi hwn a'i gadw ar ffeil er mwyn i'r staff allu cyfeirio ato'n gyflym.

Gwelwyd bod cyffuriau brys a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol fel ei bod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio hen gyffuriau a chwistrelli a rhoi rhai newydd yn eu lle, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (y DU)⁸.

⁸ [Nod y Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, nid oedd unrhyw brotocol argyfwng i'w weld a oedd yn disgrifio beth i'w wneud mewn argyfwng. Gwnaethom argymhell y dylid llunio protocol argyfwng sy'n nodi'n glir yr hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng a'r rhifau cyswllt perthnasol. Mae angen ei arddangos yn glir i'r staff a'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff protocol argyfwng ei arddangos yn glir yn y practis. Rhaid iddo gynnwys beth i'w wneud mewn argyfwng a'r holl rifau cyswllt perthnasol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd siart llif ar gael a oedd yn nodi pwy y dylid cysylltu ag ef a'r camau y dylai'r staff eu cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu oedolion a phlant. Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff fel yr arweinydd diogelu enwebedig. Mae'n gyfrifol am sicrhau y cedwir at y polisi diogelu, a gall roi rhywfaint o gyfarwyddyd ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda rheolwr y practis neu aelod arall o dîm ehangach Bupa a'u bod yn hyderus y byddent yn cael ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd y staff y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis.

Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁹ (DBS). Cadarnhaodd y staff y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, a nodwyd gennym fod hyn yn arfer da.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm clinigol wedi cael hyfforddiant digonol i ddefnyddio'r cyfarpar a gwelsom dystiolaeth o'r cofnod a ddefnyddir i gofnodi'r hyfforddiant hwn.

Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn drefnus. Roedd lloriau ac arwynebau'r deintyddfeydd yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon ar gael.

Daethom i'r casgliad bod trefniadau ar waith gan y practis i ddefnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel, Daethom i'r casgliad hwn gan fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol am ddefnyddio cyfarpar pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom fod y rheolau lleol¹⁰ yn cael eu harddangos ger yr offer pelydr-X i nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu hamlygu i'r offer pelydr-x cyn lleied â phosibl.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod pob un o'r deintyddion wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi'u cwblhau fel rhan o'r gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i'r archwiliadau a gynhaliwyd. Lle bo

⁹ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

¹⁰ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth. Bwriedir iddynt nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hamlygu i'r offer pelydr-x cyn lleied â phosibl.

archwiliadau yn nodi problemau posibl wrth gynnal profion pelydr-X, gwnaethom argymhell fod angen system ar y practis i sicrhau y caiff camau eu cymryd i wneud y gwelliannau gofynnol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y data a gesglir o archwiliadau eu hadolygu a lle y bo'n berthnasol, y caiff gwelliannau eu nodi a'u rhoi ar waith.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal nifer o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yn helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael y canllawiau diweddaraf drwy gylchlythyrau gan y brif swyddfa, cyrff allanol a chan aelodau o staff sy'n mynychu cynadleddau a hyfforddiant.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd gan y practis raglen o archwiliadau mewnol a gynhelir er mwyn iddo allu dangos arfer gorau wrth ddarparu gofal deintyddol. Nid oedd y practis yn cynnal adolygiadau gan gymheiriaid a gwnaethom argymhell y dylai ystyried y drefn hon yn ogystal ag archwiliadau rhoi'r gorau i smygu. Bydd hyn yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion.

Nid yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ymgymryd â gweithgareddau gwella ansawdd ychwanegol, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliad rhoi'r gorau i smygu, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau wrth gefn yn cael eu gwneud yn rheolaidd o ffeiliau electronig ac roedd gweithdrefnau priodol ar

gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant wedi'i ddiweddararu ar y Rheoliad ac rydym yn argymhell y dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant o'r fath.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu hyfforddiant priodol i bob aelod o'r staff mewn perthynas â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd da. Roedd hyn yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon uchel, gan gynnwys diogelwch a llesiant deintyddol y cleifion.

Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys digon o wybodaeth am hanes deintyddol y cleifion, eu rheswm dros fynychu, hanesion meddygol a gwybodaeth adalw.

Nodwyd anghysondebau gennym yn y cofnodion a welsom mewn perthynas â chynghor ar ddeiet a gwnaethom argymhell y dylid adolygu'r maes hwn a'i wella. Yn ogystal, gwnaethom ofyn i'r practis adolygu amledd profion pelydr-X er mwyn sicrhau eu bod yn unol â chanllawiau cyfredol. Mae angen cofnodi cyfiawnhad a thystiolaeth glir os bwriedir cynnal profion pelydr-X heb fod yn unol â'r amserlenni a argymhellir.

Roedd y nodiadau'n cael eu storio'n briodol ac roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu cofnodion cleifion er mwyn sicrhau y caiff cynghor ar ddeiet ei gofnodi'n briodol a bod amledd profion pelydr-X yn unol â chanllawiau cyfredol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith a oedd yn sicrhau y caiff y practis a'r staff eu cefnogi a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith sy'n ymdrechu i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd angen diweddarau rhai polisiâu yn unol â'r dyddiadau adolygu a nodir ar y ddogfen. Yn ogystal, mae angen polisi recriwtio sy'n disgrifio'r prosesau cyn cyflogi yn glir er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt wrth recriwtio aelodau newydd o staff.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith. Gwnaethom argymhell y dylai pob aelod o'r staff gael arfarniad blynyddol ac y dylid cynnal cyfarfodydd tîm ffurfiol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Xeon Smiles UK Ltd sy'n berchen ar Bupa Dental Care. Caiff y broses o redeg y practis o ddydd i ddydd ei harwain gan reolwr cofrestredig¹¹ a gefnogir gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd pob un o'r staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban gan ddweud wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am ofal y cleifion, naill ai'n uniongyrchol gyda rheolwr y practis, aelodau eraill o staff Bupa neu gorff amgen priodol, lle bo angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau. Nodwyd gennym y dylid bod wedi adolygu'r rhan fwyaf o'r polisiau yn 2017 a chadarnhaodd y staff mai'r bwriad oedd cyhoeddi polisiau wedi'u diweddarau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Yn ogystal, roedd rhai polisiau o dan frand Oasis ac yn cyfeirio at gyrff rheoleiddio yn Lloegr. Mae angen adolygu hyn er mwyn sicrhau bod dogfennaeth wedi'i brandio'n briodol ac yn cyfeirio at yr awdurdodau priodol sy'n cefnogi cleifion yng Nghymru.

Gwelsom fod y staff wedi llofnodi ffurflen i ddangos eu bod wedi darllen y polisiau a'r gweithdrefnau, a'u bod yn eu deall. Caiff polisiau a gweithdrefnau eu llunio a'u diweddarau gan y brif swyddfa. Anfonir unrhyw ddiweddariadau at bob aelod o'r staff, a gofynnir iddynt eu darllen a'u llofnodi er mwyn cadarnhau eu bod wedi eu darllen.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer. Roedd gan y practis hefyd dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyffredol.

¹¹ Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau fel rheolwyr cofrestredig o ran yr hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC o dan y rheoliadau, er enghraifft os bydd cleifion yn cael anaf difrifol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff polisïau nad ydynt yn gyfredol eu hadolygu ac y caiff fersiynau wedi'u diweddarau eu hanfon i'r practis

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dogfennaeth wedi'i brandio'n briodol a bod y cyrff priodol wedi'u rhestru yn ei bolisïau/gweithdrefnau

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisïau yn ymwneud ag adnoddau dynol ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau gwisg, gweithio hyblyg, mamolaeth, gwylliau blynyddol, arfarnu staff a disgyblu. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi recriwtio penodol a oedd yn ymwneud â recriwtio a'r gwiriadau a fyddai'n cael eu cynnal cyn i aelod newydd o staff ddechrau gweithio. Mae angen polisi o'r fath er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel.

Cadarnhaodd y staff mai'r brif swyddfa oedd yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwiriadau wrth recriwtio staff. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gan y staff ar lefel y practis bolisïau priodol ar gyfer recriwtio gan mai nhw sy'n cynnal y cyfweiliadau, a byddai polisïau recriwtio yn sicrhau bod gwybodaeth a negeseuon cyson yn cael eu cyfleu i ddarpar ymgeiswyr.

Gwelsom enghreifftiau o ddisgrifiadau swydd ac roedd rhaglen sefydlu ar waith i aelodau newydd o staff. Caiff yr holl wybodaeth gyflogi ei storio ar y system gyfrifiadurol a dim ond rheolwr y practis all ei gweld.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn dechrau eu swydd, a gwelsom dystiolaeth o'r rhain ar gyfer pob aelod o'r grŵp staff. Dywedodd y staff wrthym y byddai tystysgrifau DBS yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. Mae'r arfer hwn yn helpu i sicrhau dewisiadau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, er enghraifft plant.

Roedd gan y practis broses arfarnu ar waith, ond nid oedd unrhyw arfarniadau wedi cael eu cynnal eto. Cadarnhaodd rheolwr y practis, a oedd yn newydd i'r swydd, y byddai pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol.

Gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Nid oedd unrhyw gyfarfodydd ffurfiol wedi'u dogfennu eto, ond gwelsom y templed y bydd y tîm yn ei ddefnyddio i gynnal cyfarfodydd misol ffurfiol. Cynigir cyfle i'r staff ychwanegu eitemau at yr agenda a chaiff cofnodion eu dosbarthu i unrhyw un na fydd yn gallu bod yn bresennol.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfarfodydd tîm ffurfiol eu cynnal a'u dogfennu er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o anghenion cyfredol y busnes.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod polisi recriwtio ar gael i'r staff, sy'n ymdrin â phob agwedd ar wybodaeth cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi ac sy'n ategu'r polisïau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Bupa Dental Care, Casnewydd

Dyddiad arolygu: 5 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bupa Dental Care, Casnewydd

Dyddiad arolygu: 5 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i'r rheolwr cofrestredig ofyn am arwyddion newydd i'r practis er mwyn sicrhau bod enwau'r staff sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd wedi'u rhestru'n glir, gan gynnwys eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17 (2) Safonau Iechyd a Gofal – Safon 3.2 cyfathrebu'n	Archebwyd arwyddion newydd ym mis Ionawr ac rydym yn aros iddynt gyrraedd	Gemma Danter	2 fis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	effeithiol			
Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff taflen wybodaeth practis Bupa ei diweddarw er mwyn adlewyrchu enw cywir rheolwr y practis	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 7 (a) Safonau Iechyd a Gofal – Safon 4.2 gwybodaeth i gleifion	Archebwyd taflenni newydd ar gyfer y practis a gwnaed newidiadau mewn llawysgrifen i'r taflenni presennol – mae taflenni Bupa a thaflenni gwybodaeth i gleifion AGIC yn gyfredol	Gemma Danter	2 fis
Dylai'r rheolwr cofrestredig gael gafael ar flwch er mwyn gallu cyflwyno holiaduron/adbornh gan gleifion yn ddienw.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 16 (2) (b) (ii) Safonau Iechyd a Gofal – Safon 3.2 cyfathrebu'n effeithiol	I'w archebu gan Lyreco – ein cyflenwyr deunydd ysgrifennu	I'w archebu gan cop ym mis Ionawr – bydd yn cyrraedd drannoeth	Mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu argymhellion yr asesiad risg tân diwethaf a gwneud trefniadau i osod goleuadau i'w defnyddio mewn argyfwng yn y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 16 (1) (b) a 22 (4) (a) Safonau Iechyd a Gofal – Safon llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Anfonwyd ffurflenni at ein swyddog cyllid, rydym yn aros iddynt gael eu cymeradwyo a chaiff ei roi ar waith. Derbyniwyd dyfynbrisiau	Gemma Danter	90 diwrnod
Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu'r ystafell ddihalogi yn unol â chanllawiau WHTM 01-05 mewn perthynas ag awyru er mwyn sicrhau bod yr ystafell yn cydymffurfio ag arferion gorau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 16 (2) (d) (ii) WHTM 01-05 – pennod 6,	Rydym yn ymwybodol bod angen i ni symud y system awyru i ochr arall yr ystafell. – i'w gwblhau	Gemma Danter	90 diwrnod

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Amodau amgylcheddol			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff protocol argyfwng ei arddangos yn glir yn y practis. Rhaid iddo gynnwys beth i'w wneud mewn argyfwng a'r holl rifau cyswllt perthnasol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 8 (q) a 31 (1) Safonau Iechyd a Gofal – Safon 2.1 rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Cwblhawyd	Gemma Danter	Cwblhawyd
Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y data a gesglir o archwiliadau eu hadolygu a lle y bo'n berthnasol, y caiff gwelliannau eu nodi a'u rhoi ar waith.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 8 (n) ac 16 (a) a (2) (d) (ii) Safonau Iechyd a Gofal	Parhaus, i'w archwilio. Staff i gwblhau o leiaf ddau archwiliad AGIC bob dwy flynedd	Gemma Danter	Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	– Safon 6.3 gwrando a dysgu o adborth			
Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ymgymryd â gweithgareddau gwella ansawdd ychwanegol, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliad rhoi'r gorau i smygu, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 8 (n) ac 16 (a) a (2) (d) (ii) Safonau lechyd a Gofal - Safon 3.3 gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd	Y tîm yn ymwybodol bod angen cwblhau dau archwiliad bob dwy flynedd	Gemma Danter	Parhaus
Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu hyfforddiant priodol i bob aelod o'r staff mewn perthynas â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17	Darperir hyfforddiant gan Bupa a gellir ei gwblhau ar-lein	Gemma Danter	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(1) (a) a (3) (a) Safonau Iechyd a Gofal - Safon 7.1 y gweithlu			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu cofnodion cleifion er mwyn sicrhau y caiff cyngor ar ddeiet ei gofnodi'n briodol a bod amledd profion pelydr-X yn unol â chanllawiau cyfredol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 20 (1) (a) (i) Safonau Iechyd a Gofal - Safon 3.5 cadw cofnodion	Trafodwyd â GDPS a phwysleisiwyd bod angen gwneud newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion cleifion er mwyn gwella'r data a gofnodir	Gemma Danter i adolygu'r sefyllfa a GDPS	Parhaus
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff polisïau nad ydynt yn gyfredol eu hadolygu ac y caiff fersiynau wedi'u diweddarau eu hanfon i'r practis	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 –	Mae Bupa yn adolygu'r holl bolisïau ac wrthi'n eu hadnewyddu	Canolfan gymorth Bupa Dental Care	Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliad 8 (6) Safonau lechyd a Gofal – Safon 3.5 cadw cofnodion a llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd			
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dogfennaeth wedi'i brandio'n briodol a bod y cyrff priodol wedi'u rhestru yn ei bolisiâu/gweithdrefnau	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 8 (6) Safonau lechyd a Gofal – Safon 3.5 cadw cofnodion a llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Mae holl bolisiâu a gweithdrefnau Bupa yn y practis yn gyfredol, ac mae'r staff wedi'u llofnodi.	Gemma Danter	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfarfodydd tîm ffurfiol eu cynnal a'u dogfennu er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o anghenion cyfredol y busnes.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17 (3) (e) Safonau Iechyd a Gofal - Safon 7.1 y gweithlu	Mae cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal bob mis a'u cofnodi	Gemma Danter	Parhaus
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 17 (3) (a) ac (e) Safonau Iechyd a Gofal - Safon 7.1 y gweithlu	Mae dyddiadau wedi'u cofnodi yn y dyddiadur er mwyn sicrhau y cynhelir arfarniadau aelodau'r tîm, arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd unigol bob dwy flynedd er mwyn adolygu cynnydd	Gemma Danter	Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod polisi recriwtio ar gael i'r staff, sy'n ymdrin â phob	Rheoliadau Deintyddiaeth	Mae'r tîm cydymffurfiaeth wedi ystyried yr adborth o arolygiad AGIC ac wedi'i	Gwasanaethau adnoddau dynol	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
agwedd ar wybodaeth cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi ac sy'n ategu'r polisiau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol	Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 8 (1) (h) ac (i) Safonau Iechyd a Gofal - Safon 7.1 y gweithlu	gyflwyno i'r tîm adnoddau dynol yn y ganolfan gymorth er mwyn adolygu'r adborth	Bupa Dental Care	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Gemma Danter

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 06.01.2020